

Cydymffurfiaeth ColegauCymru gyda'r Safonau

Ionawr 2017

Cynhyrchwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

Safonau	Gwybodaeth
149, 155, 161, 167, 168	Mae Hysbysiad Cydymffurfio ColegauCymru (sydd yn manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundain Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i ColegauCymru gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan ac mae copi ar gael yn ein swyddfa.
141, 150, 156, 162	Mae Polisi Gwynion ColegauCymru yn gosod allan y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion, gan gynnwys y broses gwyno a'r weithdrefn y bydd ColegauCymru yn ei dilyn wrth ystyried cwynion sy'n ymwneud yn benodol am y Gymraeg ac wrth ymneud gyda cwynion cyffredinol.
144,145, 147, 148, 151, 152, 153, 157, 159, 163, 164, 165	<p>Rydym yn sicrhau goruchwyliaeth o'r Safonau y mae'n rhaid i ColegauCymru gydymffurfio â hwy yn y ffyrdd canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Mae adroddiad misol yn cael ei baratoi ar gyfer Uwch Dîm Rheoli ColegauCymru, ac adroddiad unwaith pob tymor ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg ColegauCymru. Mae'r adroddiadau yn sicrhau fod y gweithrediad cywir ar waith ac yn ystyried asesiad effaith y Gymraeg ar y sefydliad.2. Mae cyfrifoldeb ar rheolwyr llinell i sicrhau fod cyfrifoldeb am y Gymraeg yn rhan o waith pob aelod o staff ac mae'n item agenda safonol fel rhan o gynllun rheoli perfformiad y sefydliad.3. Mae pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg pan maent yn ymuno â ColegauCymru ac yn cael cynnig i fynychu cyrsiau Gymraeg oddi ar hynny. Fel rhan o'r broses cydymffurfiaeth mae'r staff yn gwyllo ffilmau ymwybyddiaeth iaith ac yn eistedd cwis ar y diwedd.4. Rydym yn cofnodi nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg.5. Paratowyd canllaw i helpu staff ddeall sut i chwarae eu rhan er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan roi ystyriaeth benodol at safonau cyflenwi gwasanaethau. e.e. wrth wahodd unigolyn i gyfarfod, wrth gynnal cyfarfodydd/digwyddiadau, ateb y ffôn ayb.6. Mae cyfres o ganllawiau penodol ar gael i staff i hwyluso dealltwriaeth o'r disgwyliaidau cydymffurfio a'r drefn cydymffurfio â'r safonau gweithredu.7. Cynhaliwyd asesiad sgiliau iaith staff eleni yn 2017 ac rydym yn cofnodi sgiliau iaith Gymraeg ein staff gan gynnwys nodi'r lefel. Rydym yn cynnal archwiliad blynyddol o sgiliau iaith Gymraeg ein staff.8. Mae polisi mewn lle i gadw cofnod o'r nifer o'r swyddi gwag a newydd a gategoreiddiwyd fel swyddi

	<p>sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol - bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd a/neu fod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol neu nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. Rydym yn nodi ar bob hysbyseb fod unrhyw gais am swydd yn Gymraeg ddim yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>9. Mae pob penderfyniad polisi yn rhoi ystyried i'r effaith ar y Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth a'r Safonau Llunio Polisi.</p> <p>10. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn adroddiad blynyddol am y cwynion a dderbynnir sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg â'n cydymffurfedd â'r Safonau.</p>
154, 158, 160, 166	<p>Bydd Colegau Cymru yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Colegau Cymru â'r Safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Byddwn yn llunio adroddiad blynyddol sy'n delio â'r modd inni gydymffurfio â'r safonau llunio polisi.</p>